# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 6 Mehefin 2013** |
| Amser: | **14:00 – 17:10** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
<insert link here>

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC**
**Mike Hedges**
**Julie Morgan**
**Jenny Rathbone**
**Aled Roberts**
**Jocelyn Davies**
**Sandy Mewies**

Tystion:

**Dr Jean White, Llywodraeth Cymru**
**Val Whiting, Llywodraeth Cymru**
**Maureen Howell, Head of Lifestyle Change Branch**
**Piers Bisson, Public Service Reform Division**
**June Milligan, Llywodraeth Cymru**
**Abigail Harris, Director of Strategy and Policy**
**Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru**
**Melanie Godfrey, Programme Director 21st Century Schools**
**Sonia Reynolds, Deputy Director, Transformation Programme Division**
**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai'

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru; Maureen Howell, Pennaeth y Gangen Newid Ffyrdd o Fyw, Llywodraeth Cymru; a Val Whiting, Pennaeth yr Is-adran Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Llywodraeth Cymru, i'r cyfarfod.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Dadansoddiad cost a budd o bob opsiwn ar gyfer y strwythur TG arfaethedig a fydd yn sail i'r swyddogaeth arlwyo mewn ysbytai;
- Manylion am ganran yr aelodau o staff nyrsio Band 5 ar draws yr holl fyrddau iechyd sy'n methu â chael mynediad i gyfleusterau e-ddysgu gan nad oes ganddynt fynediad i gyfrifon e-bost gwaith;
- Costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r pecyn e-ddysgu ynghylch maeth cleifion ar waith;
- Rhagor o fanylion ynghylch lefel y cyfranogiad mewn pecynnau hyfforddi ar-lein yn y GIG;
- Rhagor o wybodaeth ynghylch i lle mae gwastraff bwyd yn mynd, gan gynnwys manylion am y contractau gwastraff rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol; a
- Nodyn yn esbonio'r mesurau a roddwyd ar waith gan fyrddau iechyd i ateb y gofynion a bennwyd gan y Bil Sgorio Hylendid Bwyd.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi'r pryderon a godwyd yn y cyfarfod hwn.

## 3 Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr June Milligan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru; Piers Bisson, Pennaeth yr Is-adran Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru; ac Abigail Harris, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Ffigurau sy'n dangos sut mae sgiliau rheoli cyllid yn y gwasanaeth cyhoeddus wedi gwella;
- Eglurhad o gostau a buddion y gwaith a wnaed ar y cyd gan fentrau megis y Grŵp Cyflawni Diwygio; Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus; Cyngor Partneriaeth; Academi; a'r Comisiwn newydd ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Nodyn ynghylch y defnydd o systemau darbodus o fewn Llywodraeth Cymru;
- Enghreifftiau o achosion lle mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido ymgynghorwyr i adolygu mentrau'r system ddarbodus sydd heb gael eu gweithredu;
- Rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd arfer da yn y sectorau iechyd a chymdeithasol yn cael ei rhannu ar draws awdurdodau lleol.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi'r pryderon a gododd y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn.

## 4 Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y trydydd Cynulliad ar 'Fuddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion'

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Owen Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru; Melanie Godfrey, Cyfarwyddwr y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, Llywodraeth Cymru; a Sonia Reynolds, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Rhaglen Trawsnewid.

4.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Camau gweithredu:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- Dadansoddiad o'r nifer o ysgolion ym mhob categori a nodwyd gan arolwg stoc Llywodraeth Cymru yn 2009, gan gynnwys rhestr o'r ysgolion hynny ym Mand D.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi'r pryderon a gododd yr Aelodau yn y cyfarfod hwn.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf a'r rhaglen waith ar gyfer tymor haf 2013.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 7 Ystyried y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am weithredu'r argymhellion yn adroddiadau'r Pwyllgor

7.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr adroddiadau 'Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai'; 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'; a 'Buddsoddiad Cyfalaf mewn Ysgolion'.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidogion perthnasol yn nodi'r prif bryderon ac argymhellion.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.